

# Adroddiad Arolygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Wardiau Bryntirion a Dderwen,  
Ysbyty Cefn Carnau

Dyddiad yr arolygiad: 9, 10 a 11 Medi 2024

Dyddiad cyhoeddi: 12 Rhagfyr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom .....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym .....	8
Ansawdd Profiad y Claf .....	8
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	13
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	21
4. Y camau nesaf .....	24
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	25
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	26
Atodiad C - Cynllun gwella .....	27

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Ysbyty Cefn Carnau ar 9, 10 a 11 Medi 2024.

Ysbyty diogel lefel isel modern yw Cefn Carnau sy'n cynnig gwasanaethau i oedolion sydd wedi cael diagnosis o anabledd dysgu ac sydd hefyd yn dioddef o salwch meddwl o bosibl.

Adolygydd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Bryntirion - 11 o welyau sy'n darparu gwasanaeth diogel lefel isel i oedolion sy'n fenywod dros 18 oed sydd wedi cael prif ddiagnosis o anabledd dysgu ac a all fod yn agored i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- Ward Dderwen - 11 o welyau sy'n darparu gwasanaeth diogel lefel isel i oedolion sy'n ddynion dros 18 oed sydd wedi cael prif ddiagnosis o anabledd dysgu ac a all fod yn agored i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd o AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol (gan gynnwys yr adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl).

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Ni chwblhawyd unrhyw holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm ymroddedig o staff a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y staff yn wybodus am bob claf ac yn ymdrechu i ddarparu gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn. Gwnaethom arsylwi gwir garedigrwydd, cynhesrwydd a pharch rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y staff gan ddweud eu bod yn cael eu trin yn dda gan y staff a'u bod yn teimlo'n ddiogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarur hysbysfwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'
- Sicrhau bod yr Ystafell Synhwyrdd yn cael ei defnyddio at ei diben gwreiddiol yn hytrach na man storio.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Roedd y cleifion yn canmol y staff gan ddweud eu bod yn cael eu trin yn dda.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risg, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Gwelsom drefniadau cynllunio gofal da a oedd yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru. Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl iawn, wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn adlewyrchu amrywiaeth eang o elfennau lle roedd y tîm amlddisgyblaethol yn cael ei gynnwys. Roedd dystiolaeth glir wedi'i dogfennu hefyd bod y cleifion yn cael eu cynnwys.

Gwnaethom edrych ar sampl o Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth (siartiau MAR) ar y ddwy ward a gwelsom eu bod yn cael eu cynnal i safon dda. Roedd y dogfennau

cadw statudol y gwnaethom edrych arnynt yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Cod Ymarfer.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau'r cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol er mwyn sicrhau eu bod yn haws i'w defnyddio.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd barchus
- Roedd y staff yn cydymffurfio â'r polisi arsylwi, yn ei ddeall ac yn ei roi ar waith.
- Trefniadau cynllunio gofal o safon dda
- Prosesau diogel ac effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaethau.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff ymrwymedig a oedd yn deall anghenion y cleifion yn yr ysbyty yn dda. Gwelsom dîm o staff cyfeillgar, proffesiynol a charedig a oedd yn dangos ymrwymiad i roi gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Roedd staff, rheolwyr y ward a'r uwch dîm arwain yn dangos arweinyddiaeth ymroddedig a brwdfrydig.

Gwelsom fod strwythur llywodraethu effeithiol ar waith o ran cyfarfodydd i drafod digwyddiadau, cwynion a materion sy'n ymwneud â gofal cleifion.

Roedd yn amlwg bod yr ysbyty wedi dysgu o arolygiadau blaenorol ac wedi rhoi gwelliannau ar waith.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diogelwch gwybodaeth y byddai modd adnabod cleifion ohoni.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cyfarfodydd staff a chleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd
- Roedd ffigurau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn dda
- Roedd rheolwr yr ysbyty, yr arweinydd clinigol a'r tîm amlddisgyblaethol yn darparu arweinyddiaeth gadarn i'r staff.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan gleifion

Gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion yn ystod yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty a'u profiad ohono. Ni chawsom unrhyw ymatebion. Er mwyn cefnogi ein canfyddiadau o ran profiadau'r cleifion, gwnaethom hefyd adolygu adborth roedd yr ysbyty wedi'i gael gan gleifion mewnol, unrhyw gwynion ac unrhyw ddata eraill o arolygon, i'n helpu i ddeall profiad cyffredinol y cleifion yn well.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym eu bod yn cael eu trin yn dda, a bod y staff yn garedig ac yn barod i helpu. Mae'r ysbyty hefyd yn dosbarthu holiaduron blynyddol i gleifion a theuluoedd.

Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan gleifion yn ystod yr arolygiad roedd:

*"Mae rheolwyr a staff y wardiau yn hyfryd"*

#### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o gyfleusterau ar gael yn Ysbyty Cefn Carnau er mwyn helpu i ddarparu therapiau a gweithgareddau i'r cleifion. Hefyd, rhoddir cyfleoedd i'r cleifion hynny sydd wedi'u hawdurdodi i adael yr ysbyty ddefnyddio gwasanaethau cymunedol yn rheolaidd.

Gwelsom y cleifion yn yr ysbyty yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol yr arolygiad. Roedd y staff Therapi Galwedigaethol a'r cydgysylltydd gweithgareddau yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau, ac roedd hi'n amlwg bod yr adran therapi galwedigaethol yn cynnig rhai gweithgareddau therapiwtig llesol i'r grŵp cleifion, ar y cyd â'r cydgysylltydd gweithgareddau. Mae amserlen gweithgareddau wythnosol ar waith ac mae'r gweithgareddau yn cynnwys pêl-fasged, pêl-droed, creffttau a chlwb sinema.

At hynny, roedd cegin therapi galwedigaethol ar gael i'r cleifion ei defnyddio i baratoi prydau. Gwelwyd y cleifion yn defnyddio'r ardal hon yn ystod yr arolygiad.

Roedd gerddi ar gael i'r cleifion hefyd yn yr ardal awyr agored, ond nid oedd unrhyw ardaloedd wedi'u cysgodi i amddiffyn y cleifion a'u galluogi i barhau i ddefnyddio'r ardd yn ystod tywydd gwael.



**Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried gosod cysgodfannau er mwyn galluogi'r cleifion i ddefnyddio'r ardd yn ystod pob tywydd.**

Roedd ystafell synhwraidd hefyd ar gael i'r cleifion, ond roedd yr ystafell hon yn ymddangos yn anhaclus ac yn llawn annibendod, ac nid oedd yn ymddangos ei bod yn cael ei defnyddio at y diben a fwriadwyd.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ystafell synhwraidd yn drefnus ac yn daclus.**

Roedd meddyg teulu, gwasanaethau deintyddol a gweithwyr iechyd corfforol proffesiynol eraill ar gael i'r cleifion, fel y bo angen.

Mae gwasanaethau hefyd yn cael eu darparu gan weithwyr proffesiynol eraill fel ffisiotherapi, dieteteg a therapi lleferydd ac iaith, yn unol ag anghenion cleifion unigol. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos tystiolaeth o asesiadau iechyd corfforol a gwaith monitro manwl a phriodol.

Roedd taflenni hybu iechyd a manylion am sefydliadau cymorth ar gael yn yr ysbyty ar gyfer y cleifion.

### **Urddas a pharch**

Gwelsom fod pob cyflogai yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch. Roedd hyn yn cynnwys staff y ward, uwch-reolwyr a staff gweinyddol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am eu rolau a'r modd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion ac i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon a oedd gan y cleifion. Roedd hyn yn dangos agweddau ymatebol a gofalgarn gan y staff tuag at y cleifion.

Roedd pob ystafell wely yn cynnwys cyfleuster en-suite a phaneli arsylwi y gellir eu hagor neu eu cau o'r tu allan er mwyn cynnal preifatrwydd. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom dynnu sylw at fater yn ymwneud â phreifatrwydd ac urddas mewn perthynas â chlaf a oedd yn defnyddio cyfleusterau'r gawod. Datryswyd y mater hwn ar y safle a diweddarwyd cynllun gofal y claf yn briodol er mwyn atal unrhyw faterion pellach.

Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion drwy gnocio ar ddrysau'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi cyn mynd i mewn. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd gan y cleifion allweddi personol i'w hystafelloedd gwely. Cadarnhaodd rheolwr yr ysbyty fod cynlluniau ar waith i sicrhau bod allweddi ar gael i'r cleifion.

**Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan y cleifion allweddi i'w hystafelloedd gwely.**

Roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd a storio eu heiddo personol. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer pob eitem bersonol er mwyn helpu i gynnal diogelwch pob claf. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio ffonau symudol a dyfeisiau electronig personol eraill. Roedd ffôn hefyd ar gael i'r cleifion ei ddefnyddio i gysylltu â ffrindiau neu deulu pe byddai angen, ac roedd dyfeisiau electronig ar gael ar y wardiau i'r cleifion eu defnyddio.

### **Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion**

Roedd yr hysbysfyrddau i gleifion a oedd i'w gweld yn yr ysbyty yn cynnwys gwybodaeth berthnasol er mwyn helpu'r cleifion a'u teuluoedd i ddeall eu gofal. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth fel yr amserlen gweithgareddau wythnosol, bwyta'n iach, gwasanaethau eirioli a sut i wneud cwyn neu godi pryder. Roedd canllawiau gwybodaeth hawdd eu darllen ar gael i'r cleifion ar bob ward hefyd.

Roedd tystysgrifau cofrestru gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a gwybodaeth am sut i wneud cwyn i'w gweld. Roedd y wybodaeth hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

Roedd hysbysfyrddau i gleifion a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y broses 'dywedoch chi, gwnaethom ni'. Nid oedd y wybodaeth a oedd wedi'i harddangos ar rai o'r hysbysfyrddau yn gyfredol a dylid cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod hysbysfyrddau gwybodaeth i gleifion yn gyfredol.**

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Dywedodd pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad ag aelod o staff pan fydd angen. Gwnaethant hefyd ddweud eu bod yn hapus yn yr ysbyty, a bod y staff yn garedig ac yn barod i'w helpu. Roedd parch amlwg a chydberthnasau cryf rhwng y staff a'r cleifion. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu mewn ffordd gadarnhaol a sensitif â'r cleifion, gan gymryd amser i'w helpu i ddeall eu gofal, a defnyddio iaith neu ddulliau cyfathrebu priodol.

Dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg a bod gwasanaethau cyfieithu ar gael hefyd pe byddai angen i gleifion gyfathrebu mewn ieithoedd eraill heblaw Cymraeg neu Saesneg.

Ar gyfer cyfarfodydd penodol, a lle y bo'n gymwys, gall y cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaethau eirioli dros gleifion. Gyda chytundeb y cleifion, lle bynnag y bo'n bosibl, roedd aelodau o'u teuluoedd neu eu gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y cyfarfodydd hyn.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r cleifion yn cael eu cynnwys ac yn cymryd rhan wrth wneud penderfyniadau. Gwnaethom arsylwi ar gyfarfod cleifion a gaiff ei gynnal bob mis lle mae'r cleifion yn cael cyfleoedd i godi materion sy'n ymwneud â phethau sydd o bwys iddynt neu i wneud awgrymiadau ar welliannau yr hoffent iddynt gael eu gwneud yn yr ysbyty. Roedd rheolwr yr ysbyty yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Roedd yn gyfarwydd iawn â'r grŵp cleifion ac yn ymgysylltu â'r cleifion hynny, a dangosodd y cleifion eu bod yn fwy na pharod i uwchgyfeirio materion at reolwr yr ysbyty ac i gynnal trafodaethau agored ag ef.

At hynny, mae cynrychiolydd cleifion ar bob ward sy'n mynychu rhan o'r cyfarfodydd llywodraethu clinigol lle mae'r cynrychiolydd cleifion yn trafod unrhyw faterion, gwelliannau neu newidiadau yr hoffai'r grŵp cleifion eu gwneud.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Roedd gan y cleifion eu cynllunydd gweithgareddau wythnosol eu hunain, gan gynnwys sesiynau unigol a sesiynau grŵp yn yr ysbyty ac yn y gymuned (os oeddent wedi cael yr awdurdod priodol i wneud hynny). Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff a'r cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysbyty ac yn y gymuned. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn mwynhau'r sesiynau y mae'r Therapydd Galwedigaethol a'r cydgysylltydd gweithgareddau yn eu trefnu ar eu cyfer.

Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion. Er enghraifft, drwy ddeall pan oedd yn well gan y cleifion gael llonydd a hwyluso hyn, ond gan ar yr un pryd gynnal lefelau arsylwi priodol.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys yn llawn mewn adolygiadau aml-ddisgyblaethol misol. Gwelsom dystiolaeth fod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod cymorth yn cael ei roi mewn ffordd strwythuredig er mwyn galluogi cleifion i gyflawni eu nodau unigol. Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl iawn ac wedi'u personoli, a oedd yn helpu'r ysbyty i ddarparu gofal cynhwysfawr i'r cleifion.

Roedd cyfarfod trosglwyddo yn cael ei gynnal bob bore yn ystod yr wythnos i'r staff nyrso roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm aml-ddisgyblaethol am unrhyw bryderon, materion neu ddigwyddiadau a fu yn ystod y diwrnod blaenorol. Gwnaethom fynychu cyfarfod trosglwyddo yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod y staff yn deall y

cleifion roeddent yn gofalu amdanynt yn dda, a bod y trafodaethau yn canolbwyntio ar yr hyn a fyddai orau i'r claf unigol.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Gwelsom fod trefniadau da ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd cyfleusterau ar gael i'r cleifion weld eu teuluoedd yn breifat. Roedd ystafelloedd hefyd ar gael i'r cleifion dreulio amser ar wahân i'r cleifion eraill yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau.

Roedd y ddogfennaeth gyfreithiol yn ymwneud â chadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Roedd gwasanaethau eirioli ar gael i bob claf, a dywedwyd wrthym fod eiriolwyr yn ymweld â'r ysbyty.

Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o gyfarfodydd y tîm aml-ddisgyblaethol ar eu cyfer a bod aelodau o'r teulu neu eiriolwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan lle y bo'n bosibl.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddangos eu bod yn rhoi sylw priodol i gynnal hawliau'r cleifion a dewisiadau cleifion unigol. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth a welsom yn dangos bod anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol y cleifion wedi cael eu hystyried. Gwelsom fod gan yr ysbyty bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a oedd ar gael i helpu i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth y cleifion yn cael eu parchu.

Roedd ystafell aml-ffydd ar gael i'r staff a'r cleifion ei defnyddio hefyd.

### **Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Roedd cyfarfodydd cleifion rheolaidd ac arolygon yn cael eu cynnal er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd i berthnasau a gofalwyr ynghylch sut i roi adborth.

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd y polisi yn cynnig strwythur ar gyfer ymdrin â phob cwyn yn yr ysbyty. Roedd yn amlwg bod person annibynnol yn cael ei bennu i ymchwilio i gwynion a bod camau yn cael eu cymryd yn unol â pholisi cwynion y darparwr cofrestredig er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn briodol. Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion ffurfiol ac anffurfiol. Cadarnhawyd bod yr ysbyty wedi ymdrin â nhw yn unol â pholisi cwynion y sefydliad.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Gofal Diogel

### Yr Amgylchedd

Roedd giât â chlo ar faes parcio'r ysbyty. Er mwyn cael mynediad i'r maes parcio, rhaid i ymwelwyr ddefnyddio'r intercom ac mae gan y staff allwedd ffob electronig.

Mae derbynfa'r ysbyty yn cael ei goruchwyllo bob awr o bob dydd, ac mae staff y dderbynfa yn gyfrifol am drefnu apwyntiadau ymwelwyr a sicrhau bod allwedd i'r ysbyty a larymau'r staff yn ddiogel. Roedd systemau da ar waith ar gyfer dyrannu allwedd i'r staff, a oedd yn faes i'w wella yn ystod arolygiadau blaenorol.

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg amrywiol a oedd wedi cael eu cynnal, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu. Dywedwyd wrthym am y gwiriadau amgylcheddol sy'n cael eu cwblhau a gwelsom dystiolaeth o'r gwiriadau wythnosol a gynhelir gan y rheolwr ar y wardiau.

Roedd y cyfarpar adfywio yn cael ei archwilio bob wythnos; roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio.

Roedd cynllun parhad busnes ar waith i'w ddilyn pe byddai digwyddiad difrifol yn yr ysbyty. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau fel tân, colli cyflenwad dŵr a thrydan a thywydd difrifol.

Roedd yr holl bolisiau diogelwch tân yn gyfredol ac roedd yr holl asesiadau risg tân wedi cael eu cwblhau.

Roedd dystiolaeth o archwiliadau yn cael ei chofnodi'n electronig, ac roedd pob archwiliad yn gyfredol ac wedi'i gwblhau'n llawn ar adeg yr arolygiad.

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu priodol ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol. Roedd system electronig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau diogelwch cleifion. Cadarnhaodd y staff fod ôl-drafodaethau yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Cadarnhaodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad y caiff digwyddiadau a'r defnydd o ymriadau atal yn gorfforol eu monitro a'u goruchwyllo'n fanwl.

Roedd pwyntiau galw am nyrs ar gael o gwmpas yr ysbyty ac yn ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi'r cleifion, er mwyn i'r cleifion allu galw am help pe bai angen. Roedd ystafell golchi dillad bwrpasol ar gael hefyd i'r cleifion ei defnyddio dan oruchwyliaeth, ac anogir y cleifion i olchi eu dillad eu hunain er mwyn annog annibyniaeth.

Roedd amrywiaeth o bolisiau iechyd a diogelwch cyfredol ar waith ac roedd amrywiaeth o asesiadau risg wedi cael eu cwblhau, fel asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân.

### **Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith yn yr ysbyty. Roedd amrywiaeth o bolisiau cyfredol ar waith i helpu'r staff â'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau, er mwyn cynnal diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cwblhau er mwyn cadarnhau bod yr amgylchedd yn lân a sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau'r ysbyty.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff a'u bod yn ei ddefnyddio'n briodol. Dywedodd y staff wrthym fod PPE ar gael yn hwylus iddynt a gwelsom fod digon o gyfleusterau golchi a sychu dwylo a diheintio ar gael.

Roedd y cyfarpar glanhau wedi'i storio'n ddiogel a'i drefnu'n briodol ac roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer gwastraff domestig a chlinigol.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau ac roedd y gyfradd gydymffurfiaeth hon yn cael ei monitro'n barhaus er mwyn sicrhau ei bod yn parhau.

### **Maeth**

Roedd yr ysbyty yn darparu prydau bwyd rheolaidd i'r cleifion ar y wardiau, a gallent ddewis o'r bwydlenni cylchdro pedair wythnos roedd yr ysbyty yn eu cynnig. Caiff prydau bwyd eu coginio'n ffres ar y safle gan y cogydd sy'n cwrdd yn rheolaidd â'r cleifion i gael gwybod eu hoff brydau bwyd a'u hoff fyrbrydau.

Caiff y cleifion gymorth i ddiwallu eu hanghenion deietegol a chlywsom fod gofynion deietegol penodol yn cael eu bodloni fel sy'n briodol.

Roedd yr ardaloedd bwyta yn lân ac yn daclus ac yn cynnig amgylchedd addas i'r cleifion fwyta eu prydau.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau a'u storio'n ddiogel. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn cynnal trefniadau storio diogel.

Roedd cabinet cyffuriau a reolir a oedd yn cyrraedd y safon ofynnol. Roedd llyfr cyffuriau a reolir a llyfr cyffuriau a all gael eu camddefnyddio ar gael ar y wardiau hefyd.

Roedd y fferyllfa yn rhoi mewnbwn rheolaidd ac yn cynnal archwiliad bob wythnos a oedd yn hwyluso'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaethau ar y ddwy ward.

Gwelsom sawl rownd meddyginiaeth yn cael eu cynnal, ac roedd y staff yn cynnal y rowndiau hyn mewn modd priodol a phroffesiynol, gan ryngweithio â'r cleifion mewn ffordd barchus ac ystyriol.

Gwelsom arferion a oedd yn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o feddyginiaethau yn cael eu rhagnodi a'u bod yn cael eu rhagnodi yn y ffordd leiaf cyfyngol. Roedd y polisi meddyginiaeth yn gyfredol ac yn cael ei gadw yn yr ystafelloedd clinigol.

Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (Siartiau MAR) a welsom wedi'u cwblhau'n llawn gan y staff. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau'r holl fanylion am y claf ar y dudalen flaen a thudalennau dilynol, ynghyd â'i statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod cynlluniau gofal hunanfeddyginiaeth ar waith ac roedd un claf yn gyfrifol am ofalu am ei feddyginiaeth ei hun. Roedd hyn yn gweithio'n dda ac roedd dystiolaeth i ddangos bod y claf yn cymryd yr holl feddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd bolisiau a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion agored i niwed a phlant, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd staff y wardiau yn gallu gweld gweithdrefnau diogelu drwy'r fewnrwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y wardiau eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos gwybodaeth am y broses ar gyfer atgyfeirio achos diogelu.

Wrth sgwrsio â'r staff, roedd yn amlwg bod y gweithiwr cymdeithasol wedi meithrin cydberthynas waith agos â'r awdurdod lleol. Mae'r dull cydweithredol hwn yn rhan

allweddol o brosesau diogelu effeithiol ac yn dangos bod yr ysbyty yn rhoi cryn bwyslais ar ddiogelu ei gleifion.

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Roedd archwiliadau clinigol rheolaidd yn cael eu cynnal yn yr ysbyty a gwelsom dystiolaeth bod cyfarpar adfywio yn cael ei archwilio'n rheolaidd. Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd hyn wedi'i wneud er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn barod i'w ddefnyddio ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, roedd yn glir eu bod yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau i'w defnyddio mewn argyfwng. Roedd archwiliadau diogelwch cyfredol ar gael, gan gynnwys asesiadau risg mewn perthynas â phwyntiau clymu.

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Yn gyffredinol, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Cadarnhaodd y staff fod ôl-drafodaethau yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Cadarnhaodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad y caiff digwyddiadau a'r defnydd o ymyriadau corfforol eu gwirio, eu dadansoddi a'u goruchwyllo.

Nodwyd bod strategaethau ar waith ar gyfer rheoli ymddygiad heriol er mwyn hybu diogelwch a llesiant y cleifion. Dywedwyd wrthym fod technegau ataliol yn cael eu defnyddio a lle bo angen, byddai'r staff yn arsylwi ar y cleifion yn amlach os oedd eu hymddygiad yn achosi pryder. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod cleifion yn cael eu hatal yn gorfforol, ond dim ond pan fetho popeth arall.

Roedd y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal a'u proffil rheoli risg, ac roedd hyfforddiant ar gael i'r staff ddefnyddio sgiliau i reoli sefyllfaoedd anodd a'u tawelu. Roedd y cynlluniau gofal yn glir iawn ac yn canolbwyntio ar ymyriadau sylfaenol. Lle bo angen ymyriadau, roedd y cynlluniau gofal yn cyfeirio at rywedd y staff a'r math o ymyriad corfforol i'w ddefnyddio.

Cadarnhaodd dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad fod digwyddiadau a'r defnydd o ymyriadau corfforol yn cael eu monitro'n drylwyr. Bu cynnydd yn nifer yr ymyriadau corfforol yn ystod mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst, yn bennaf oherwydd anghenion gofal cymhleth un claf unigol. Nodwyd bod lleihad wedi bod yn ystod mis Medi, ac roedd yn gadarnhaol gweld bod y ffigurau sy'n gysylltiedig ag ymyriadau corfforol yn cael eu monitro a'u trafod yn y cyfarfodydd llywodraethu clinigol.



Roedd adroddiad yn cael ei gyflwyno ar unrhyw achos o ymyriad corfforol yn ystod y 24 awr flaenorol ac roedd yn cael ei drafod yn y cyfarfod dyddiol ac wedyn yn cael ei adolygu drwy strwythur llywodraethu clinigol yr ysbyty. At hynny, caiff deunydd fideo cylch cyfyng ei adolygu ar gyfer achosion o ymyriadau corfforol a'i werthuso gan yr hyfforddwr lleihau ymarfer cyfyngol a fydd yn darparu sesiynau dadfriffio i'r staff ac yn sicrhau y caiff y gwersi a ddysgwyd eu rhannu ar draws y sefydliad.

Mae ardal gofal ychwanegol ar gael yn yr ysbyty a ddefnyddir i dawelu sefyllfaoedd neu i gadw cleifion ar wahân os oes angen. Caiff pecynnau cadw cleifion ar wahân eu cwblhau yn ystod unrhyw gyfnod lle bydd angen gwneud hynny. Mae'r pecyn yn cynnwys yr holl adolygiadau ac arsylwadau ac mae ffurflen adborth cadw ar wahân ar gael i gleifion hefyd.

Nid oedd yr ystafell cadw ar wahân yn cael ei defnyddio'n aml; fodd bynnag, dywedwyd wrthym y byddai cleifion yn aml yn dewis defnyddio'r ardal gofal ychwanegol fel ffordd o dawelu eu hymddygiad eu hunain neu i dreulio amser y tu allan i ardaloedd y wardiau.

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Yn ystod ein trafodaethau â rheolwr yr ysbyty, cawsom nifer o enghreifftiau lle roedd yn adolygu'r gwasanaeth a ddarperir, ac yn ystyried datblygu rhai agweddau ar yr ysbyty.

Ar adeg ein harolygiad, roedd nifer o welliannau wrthi'n cael eu gwneud i safle'r ysbyty, fel gwelliannau i'r ardd a'r ardaloedd awyr agored. Roedd gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud i amgylchedd yr ysbyty ers ein harolygiadau blaenorol, ac roedd yn gadarnhaol gweld bod y cleifion yn chwarae rhan amlwg wrth drafod pa welliannau roeddent am eu gweld.

Roedd cydberthnasau amlasiantaethol da wedi cael eu meithrin gyda'r Heddlu lleol a'r tîm diogelu lleol. Mae'r ddwy asiantaeth yn mynychu'r ysbyty er mwyn ymgysylltu â'r grŵp cleifion a'i addysgu.

Roedd rheolwr yr ysbyty hefyd yn canolbwyntio ar fenter newydd i greu grŵp cymorth ar sail hil i'r staff a'r cleifion er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r gwahanol ddiwylliannau yn yr ysbyty a'r cymorth y gellir ei roi i staff a chleifion.

Hefyd, roedd yn bwriadu trefnu diwrnodau ymwybyddiaeth ddiwylliannol i ddathlu holl ddiwylliannau gwahanol y staff a'r cleifion yn yr ysbyty, gyda'r nod o wella

dealltwriaeth, gwybodaeth a gwerthfawrogiad o ddiwylliannau amrywiol y staff a'r cleifion yn yr ysbyty.

### **Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu**

Roedd y systemau cofnodion cleifion cyfrifiadurol wedi'u datblygu'n dda ac yn darparu gwybodaeth o ansawdd uchel am ofal cleifion unigol. Roedd y system yn gynhwysfawr ac yn hawdd ei defnyddio.

Roedd systemau electronig da ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau, archwiliadau clinigol ac archwiliadau llywodraethu, adnoddau dynol a systemau eraill yr ysbyty, a oedd yn helpu wrth reoli a rhedeg yr ysbyty.

Ar noson gyntaf yr arolygiad, nodwyd bod gwybodaeth roedd modd adnabod claf ohoni i'w gweld yn yr ystafell trin cleifion. Tynnwyd sylw rheolwr yr ysbyty at y mater hwn. Ymatebodd ar unwaith a chafodd ei symud.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth y mae modd adnabod cleifion ohoni yn cael ei gadael heb oruchwyliaeth heb ei diogelu.**

### **Rheoli cofnodion**

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar ffurf electronig. Roedd cyfrinair ar y system electronig er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod ac unrhyw achosion o dor-cyfrinachedd.

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am y cleifion a'r staff yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion cleifion a chynlluniau gofal yn yr adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 isod.

### **Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl**

Gwnaethom edrych ar ddogfennau cadw statudol pedwar claf, a gwelsom fod pob un ohonynt yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a Chod Ymarfer Cymru, 1983 (diwygiwyd 2016).

Gwelsom fod pob claf yn cael ei gadw'n gyfreithlon yn unol â'r ddeddfwriaeth a bod dogfennaeth dda yn cael ei chadw.

Roedd cofnodion y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu storio'n briodol, yn drefnus ac yn cael eu cynnal yn dda, ac roedd yn hawdd iawn eu deall. Roedd gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn defnyddio system effeithlon ac effeithiol i gefnogi'r gwaith o fonitro ac adolygu gofynion cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl.

### **Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal**

Gwnaethom adolygu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth pum claf. Roedd asesiad iechyd corfforol cyffredinol a dogfennaeth fonitro safonol cyfredol fel NEWS a MUST i'w gweld yn y cofnodion. Yn ogystal, roedd asesiadau safonedig yn seiliedig ar anghenion cleifion unigol.

Roedd y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal a'r proffil rheoli risg, ac roedd hyfforddiant ar gael i'r staff i ddefnyddio sgiliau i reoli sefyllfaoedd anodd a'u tawelu.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod y ffeiliau gofal yn dangos yn glir fod y cleifion yn rhan o drafodaethau gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn cael eu llofnodi gan y claf. Roedd y cofnodion hefyd yn cynnwys tystiolaeth o lais y cleifion er mwyn adlewyrchu eu barn.

Roedd tystiolaeth bod cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd i adlewyrchu'r anghenion a'r risgiau cyfredol. Mae gwaith monitro iechyd corfforol yn cael ei gofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion. Roedd y cynlluniau rheoli risg o safon dda ac yn cynnwys asesiadau risg manwl a chynlluniau strategaethol manwl ar gyfer rheoli risgiau. Roedd y cynlluniau hyn hefyd yn nodi'r hyn y dylai'r staff ei ystyried o ran iechyd corfforol wrth roi ymyriadau corfforol ar waith. Yn ogystal, roedd tystiolaeth o gynllunio gweithredol ac o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o leoliadau tymor hir.

Roedd Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol ar waith ar gyfer pob claf, ond roedd gormod o wybodaeth wedi cael ei chynnwys yn nhaflenni gwybodaeth barod y cynlluniau hyn, ac roedd yr iaith a ddefnyddiwyd yn rhy ffurfiol. Roedd y staff yn ymwybodol o'r ffaith bod angen diweddarau'r cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol ac roeddent wedi cael hyfforddiant ar sut i wella'r cynlluniau hyn yn ddiweddar. Roedd y staff wrthi'n adolygu ac yn diweddarau'r cynlluniau. Bydd gwneud gwelliannau i'r cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol hefyd yn helpu staff yr ysbyty i gefnogi arsylwadau a lleihau digwyddiadau ac yn helpu staff nad ydynt yn gyfarwydd â'r cleifion i ddarparu gofal wedi'i deilwra well at yr unigolyn.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol eu hadolygu a'u diweddarau.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan Staff

Gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiaduron AGIC ar ôl yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn a'u profiadau ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Fodd bynnag, nid oedd digon o holiaduron wedi'u cwblhau, er y llwyddom i gael barn a phrofiadau'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad.

Dywedodd y staff wrthym fod y diwylliant ar y ddwy ward yn gadarnhaol, ac y byddent yn teimlo'n hyderus yn codi pryder a'u bod yn gwybod sut i wneud hynny. Cadarnhawyd hyn yn y dystiolaeth a welsom yn ystod yr arolygiad.

Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn mwynhau gweithio ar y wardiau a'u bod yn dîm cefnogol.

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur sefydliadol clir ar waith, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio yn ystod y dydd, ac roedd systemau ar gyfer uwch-reolwyr a gwasanaeth ar alw ar waith ar gyfer y shifft nos.

Roedd yn galonogol gweld uwch-aelodau o staff yn cyrraedd pan gawsant wybod bod y tîm arolygu wedi cyrraedd, a'u bod wrth law i roi cymorth ychwanegol i'r staff.

Rheolwyr y wardiau oedd yn gyfrifol am reoli'r wardiau o ddydd i ddydd, gyda chymorth y dirprwy reolwyr.

Roedd staff y wardiau yn dangos arweinyddiaeth glir, ymroddedig a brwdfrydig, ac yn cael eu cefnogi gan dimau amlddisgyblaethol llawn ymrwymiad ac uwch-reolwyr yr ysbyty. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y rhan fwyaf o'r cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Yn ystod ein hamser ar y wardiau, gwelsom ddiwylliant cadarnhaol a oedd yn cynnwys cydberthnasau da rhwng y staff y nodwyd gennym eu bod yn cydweithio'n dda fel tîm. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth yn yr ysbyty. Roedd y rhan fwyaf o'r staff hefyd yn canmol y cymorth gan gydweithwyr a oedd yn gweithio yn yr ysbyty, gan gyfeirio at ethos da o weithio fel tîm yn yr ysbyty.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn gyflym â'r staff yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol. Roedd hyn yn helpu i gynnal diogelwch cleifion ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

### **Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd y polisi yn rhoi strwythur i ddelio â phob cwyn yn yr ysbyty.

Gwelsom sampl o gwynion anffurfiol a ffurfiol a oedd yn dangos bod person annibynnol yn cael ei benodi i ymchwilio i bob cwyn a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn unol â pholisi cwyno'r sefydliad er mwyn sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn briodol yn yr ysbyty.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn gyflym â'r staff yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn llawn angerdd am eu rolau, a thrwy gydol yr arolygiad gwelsom dîm cryf a chydlynol yn cydweithio. Roedd y staff yn gallu cael gafael ar y rhan fwyaf o'r dogfennau y gofynnodd y tîm arolygu amdanynt mewn ffordd brydlon ac amserol, sy'n dangos bod systemau llywodraethu da ar waith.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg. Roedd prosesau ar waith i gael geirdaon ar gyfer unigolion cyn eu cyflogi. Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau. Felly, cawsom sicrwydd fod y broses recriwtio yn un agored a theg.

Roedd staff newydd yn dilyn cyfnod sefydlu o dan oruchwyliaeth staff profiadol ar y ward. Dangosodd y staff dystiolaeth ddogfennol i ni gan esbonio'r systemau sefydlu sydd ar waith.

Darparwyd amrywiaeth o bolisiau i ni, yr oedd y mwyafrif ohonynt wedi cael eu diweddarau, ond nid oedd y polisi cydsynio yn gyfredol a dylid bod wedi ei adnewyddu ym mis Ebrill 2023.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y polisi cydsynio ei adolygu a'i ddiweddarau.**

### **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Ystyriodd y tîm arolygu lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant y staff, a chafodd restr o gydymffurfiaeth staff â hyfforddiant gorfodol. Roedd y ffigurau hyfforddiant a ddarparwyd i ni yn ystod yr arolygiad yn dangos ffigurau cydymffurfiaeth cyffredinol o 91.8 y cant.

Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau'r staff eu bod yn cael arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwyllo a dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd.

Roedd y lefelau staffio yn briodol i gynnal diogelwch y cleifion ar y wardiau ar adeg ein harolygiad. Clywsom fod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio, ond y byddai'r ysbyty yn ceisio defnyddio staff asiantaeth rheolaidd a oedd yn gyfarwydd â gweithio yn yr ysbyty a gyda'r grŵp cleifion pan fyddai prinder staff.

Dywedwyd wrthym hefyd am y mentrau recriwtio sydd ar waith ar hyn o bryd er mwyn denu aelodau newydd o staff gan fod rhai swyddi gwag ar gyfer nyrsys staff yn yr ysbyty. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol gweld bod yr ysbyty yn cymryd camau i geisio llenwi'r swyddi gwag.

Hefyd, dywedodd y staff wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am ofal cleifion neu faterion eraill yn yr ysbyty a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddai rheolwr yr ysbyty yn mynd i'r afael â'u pryderon. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i roi arweiniad ar sut y gall y staff godi pryderon.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.



# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Cefn Carnau

**Dyddiad yr arolygiad:** 9 - 11 Medi 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion lle roedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Cefn Carnau

Dyddiad yr arolygiad: 9 - 11 Medi 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Roedd gerddi ar gael i'r cleifion yn yr ardal awyr agored, ond nid oedd unrhyw ardaloedd wedi'u cysgodi i amddiffyn y cleifion a'u galluogi i barhau i ddefnyddio'r ardd yn ystod tywydd gwael.	Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried gosod cysgodfannau er mwyn galluogi'r cleifion i ddefnyddio'r ardd yn ystod pob tywydd.		Bydd cysgodfannau yn cael eu harchebu ar gyfer y ddwy ardd a'u gosod yn y ddwy ardd gymunedol	Dean Harries	13/01/2025
2. Roedd ystafell synhwyraidd ar gael i'r cleifion, ond roedd yr ystafell hon yn	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ystafell synhwyraidd yn drefnus ac yn daclus.		Mae hyn wedi'i gwblhau.	Dean Harries	04/10/2024

	ymddangos yn anhaclus ac yn llawn annibendod, ac nid oedd yn ymddangos ei bod yn cael ei defnyddio at y diben a fwriadwyd.					
3.	Ar adeg yr arolygiad, nid oedd gan y cleifion allweddi personol i'w hystafelloedd gwely.	Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan y cleifion allweddi i'w hystafelloedd gwely.		Mae pob allwedd ar gael ar y safle. Mae cyfarfodydd wedi'u trefnu gan y tîm amlddisgyblaethol i gadarnhau y gall pob claf gael allwedd i'w ystafell wely. Yn dilyn y broses hon, caiff yr allweddi eu rhoi i'r cleifion.	Dean Harries	04/11/2024
4.	Roedd hysbysfyrddau i gleifion a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y broses 'dywedoich chi, gwnaethom ni'. Nid oedd y wybodaeth a oedd wedi'i harddangos ar rai o'r hysbysfyrddau yn	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod hysbysfyrddau gwybodaeth i gleifion yn gyfredol.		Mae proses ar gyfer gwirio'r hysbysfyrddau bellach yn rhan o Gyfarfodydd Cynrychiolydd y Ward. Byddant yn cael eu gwirio bob mis gan Reolwr y Ward a'r	Dean Harries	04/11/2024

	gyfredol a dylid cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.			cynrychiolydd a'u trafod yn ystod y cyfarfod misol.		
5.	Ar noson gyntaf yr arolygiad, nodwyd bod gwybodaeth roedd modd adnabod claf ohoni i'w gweld yn yr ystafell trin cleifion a oedd wedi'i chloi. Tynnwyd sylw rheolwr yr ysbyty at y mater hwn. Ymatebodd ar unwaith a chafodd ei symud.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth y mae modd adnabod cleifion ohoni yn cael ei gadael heb oruchwyliaeth heb ei diogelu.		Cafodd neges e-bost ei llunio a'i hanfon at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod gwaith papur yn cael ei storio'n briodol.	Dean Harries	04/10/2024
6.	Roedd y taflenni gwybodaeth barod ar gyfer y cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol yn cynnwys gormod o wybodaeth ac roedd yr iaith a ddefnyddiwyd yn rhy ffurfiol.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol eu hadolygu a'u diweddarau.		Mae'r broses ar gyfer y cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol wrthi'n cael ei llunio ar ei ffurf derfynol ac mae'r taflenni gwybodaeth barod yn cael eu datblygu ymhellach.	Dean Harries	16/12/2024
7.	Roedd disgwyl i'r polisi cydsynio gael ei	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff y		Mae Cyfarwyddwr yr Ysbyty wedi codi'r mater hwn â Bwrdd	Bwrdd Elysium	03/02/2025

adolygu ym mis Ebrill 2023.	polisi cydsynio ei adolygu a'i ddiweddarau.		Corfforaethol Elysium i'w ystyried.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Dean Harries  
**Teitl swydd:** Cyfarwyddwr yr Ysbyty  
**Dyddiad:** 04/10/2024